Trafnidiaeth Cymru yn cychwyn ar genhadaeth amgylcheddol gyda chyngor cymuned lleol.

Bydd maes parcio segur yn cael ei drawsnewid yn goetir cymunedol newydd drwy bartneriaeth newydd rhwng Trafnidiaeth Cymru a Chyngor Tref Pwllheli.

Yn y warchodfa natur yng nghanol Pwllheli, mae maes parcio segur sydd tua hanner erw. Bydd y prosiect hwn yn galluogi'r cyngor i gael gwared ar y maes parcio a chreu coetir yn ei le, gan wella'r ardal leol a gwella cyfleoedd bioamrywiaeth a llesiant yn yr ardal.

Dywedodd Eric Price, Clerc y Dref: "Mae Cyngor Tref Pwllheli yn edrych ymlaen at weithio gyda Trafnidiaeth Cymru ar y prosiect hwn. Bydd yn cael effaith amgylcheddol gadarnhaol ar yr ardal ac yn helpu i gynyddu bioamrywiaeth. Nod y prosiect fydd cynyddu gwirfoddoli a, thrwy hyn, dysgu am natur a'i fanteision i lesiant. Mae natur, yr amgylchedd a dysgu sgiliau newydd yn gallu dod â phobl at ei gilydd. Bydd yn cynyddu hyder a balchder yn y gymuned."

Dywedodd Leyton Powell, Cyfarwyddwr Diogelwch a Chynaliadwyedd TrC: "Bydd y prosiect Coed Cymunedol yn helpu i wneud coetiroedd yn fwy hygyrch a gwydn, gan gefnogi iechyd a llesiant cymunedau a darparu ardaloedd ar gyfer rhagor o gysylltiadau a bioamrywiaeth bywyd gwyllt. Mae prosiectau fel hyn yn bwysig i ni yn TrC, mae creu rhwydwaith mwy cysylltiedig yn golygu mwy na gwell opsiynau trafnidiaeth. Drwy weithio'n agos gyda'n cymunedau, gallwn sicrhau ein bod yn adeiladu rhwydwaith y mae ar Gymru ei angen, yn ei haeddu ac sy'n addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol."

Mae TrC ac 11 o bartneriaid cymunedol ar draws Cymru wedi cael £100,000 gan Gynllun Coed Cymunedol Cronfa Treftadaeth y Loteri Genedlaethol. Bydd y prosiectau a ariennir gan y cynllun grant hwn yn helpu i lywio syniadau Llywodraeth Cymru ar ddatblygiad hirdymor y Goedwig Genedlaethol yng Nghymru.

Mae'r prosiect naw mis yn gydweithrediad gyda sefydliadau ar hyd a lled Cymru, sy'n cynnwys cynghorau lleol, mentrau cymdeithasol ac elusennau coetir a chymunedol. Gyda'n gilydd, byddwn yn creu safleoedd coetir newydd ac yn gwella coetiroedd sydd eisoes yn bodoli mewn naw ardal ar hyd a lled Cymru.

Mae'r prosiect yn rhan o raglen ehangach TrC, Coed Cymunedol, sy'n cael ei hariannu gan y cynllun Coed Cymunedol. Mae'n cael ei ddarparu gan Gronfa Dreftadaeth y Loteri Genedlaethol mewn partneriaeth â Llywodraeth Cymru